**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mercher, 2 Awst 2023 am 4.30 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P R Hood-Williams (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| M S Tribe | K M Griffiths | Y V Jardine |
| S M Jones | W G Lewis | C L Philpott |

**Hefyd yn Bresennol**

| | |
|---|---|
| Louise Gibbard | Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Gofal |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Julie Davies | Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| Chris Griffiths | Prif Swyddog y Gwasanaethau Preswyl |
| Liz Jordan | Swyddog Craffu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd: S Joy

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol**

Datganodd Cheryl Philpott fuddiant personol.

2 **Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau.

3 **Cofnodion y Cyfarfod(ydd) Blaenorol**

Cytunodd y panel fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mehefin 2023 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

4 **Cwestiynau gan y cyhoedd**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

5 **Adroddiad Lles/Perfformiad Blynyddol**

Roedd Louise Gibbard, Aelod y Cabinet dros y Gwasanaethau Gofal a Julie Davies, Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, yn bresennol i friffio'r panel ar yr eitem hon ac i ateb cwestiynau.

Pwyntiau i'w trafod:

- Clywodd y panel ei bod wedi bod yn flwyddyn heriol arall ond bod llawer o bethau cadarnhaol, gan gynnwys ffyrdd newydd o waith sydd wedi'u gwreiddio a llawer o waith dysgu wedi'i wneud.
- Diolchodd Aelod y Cabinet i Bennaeth y Gwasanaeth a'i swyddogion am eu gwaith caled.
- Teimlodd y panel fod yr adroddiad yn hawdd iawn ei ddarllen, roedd y fformat yn eglur ac roedd yn dangos cryfder cred y swyddogion.
- Nododd y panel fod 24 o blant wedi'u hailatgyfeirio i'r gofrestr amddiffyn plant o fewn blwyddyn, a gofynnwyd a oedd dadansoddiad o ran y rhesymau dros eu hailatgyfeirio. Fe'i hysbyswyd bod hyn yn dibynnu ar amgylchiadau'r plentyn.
- Gofynnodd y panel ynghylch y sefyllfa o ran prinderau staff. Clywyd bod niferoedd y staff sydd yno ar hyn o bryd mor isel â phedwar aelod ac mae diddordeb mawr wedi bod yn yr Academi.
- Nid oedd y panel yn ymwybodol o'r ymadrodd 'Bod â llais, dewis a rheolaeth'. Clywyd bod yr ymadrodd hwn wedi'i gynnwys yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a bydd arolygydd Arolygiaeth Gofal Cymru yn gofyn pa dystiolaeth sydd mewn perthynas â hyn bob tro y byddant yn cyfarfod.
- Gofynnod y panel am esboniad ynghylch archwilio ansoddol. Rhoddwyd gwybod bod yr adroddiad bob mis yn cynnwys rhai themâu ynghylch y canfyddiadau sydd wedi'u harchwilio'n benodol a rhoddwyd hyn at ei gilydd i roi'r darlun llawn. Cytunodd y panel y dylid cynnal sesiwn ar hyn i'w ddeall yn well ac y byddai'n ddefnyddiol ei gynnwys mewn adroddiadau ar sail chwarterol.
- Nododd y panel bod nifer yr adolygiadau gofalwr a gwblhawyd o fewn amserlenni'n isel iawn rhwng mis Mehefin 2022 a mis Mawrth 2023, sy'n awgrymu y'u gwnaed yn hwyr. Rhoddwyd gwybod bod ôl-groniad o adolygiadau wedi bod ond eu bod wedi dal i fyny ac mae'r darlun lawer yn well erbyn hyn.
- Teimlodd y panel ei fod yn adroddiad cynhwysfawr a chadarnhaol, sy'n glod i Bennaeth y Gwasanaeth ac i'r Adran.

Camau Gweithredu:

- Bydd y panel yn derbyn sesiwn ar archwilio ansoddol y tro nesaf y bydd Monitro Perfformiad ar yr agenda (mis Rhagfyr 2023).

6 **Gwasanaethau Gofal Preswyl (gan gynnwys diweddariad ar Dy Nant)**

Roedd Chris Griffiths, Prif Swyddog y Gwasanaethau Preswyl, yn bresennol er mwyn rhoi trosolwg o'r Gwasanaethau Gofal Preswyl i Blant, gan gynnwys cynlluniau i ddatblygu gwasanaethau gofal preswyl mewnol, heriau a'r camau nesaf a gynigir a'r cynnydd o ran Tŷ Nant.

Pwyntiau i'w trafod:

- Yr her fwyaf ar hyn o bryd yw staffio a phenderfyniad Llywodraeth Cymru i gyfyngu ar elwau ym maes gofalu am blant sy'n derbyn gofal o fis Ebrill 2026, sy'n arwain at leihad yn nifer y darparwyr allanol.
- Roedd y panel yn falch o glywed bod Cartref 2 bellach wedi'i gofrestru'n llawn gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ers 27 Gorffennaf 2023.
- Gofynnwyd i swyddogion esbonio'r gwahaniaeth rhwng 'rheoledig' ac 'anrheoledig'. O safbwynt statudol, mae cartrefi rheoledig wedi'u cymeradwyo ac wedi derbyn asesiad risg gan AGC, ac wedi cael yr awdurdod i weithredu a lleoli pobl ifanc yno. Nid yw AGC wedi cymeradwyo'r ddarpariaeth mewn lleoliadau anrheoledig ond oherwydd hyn, mae asesiadau risg yn fwy cadarn gan nad yw'r corff rheoleiddiol yn eu goruchwylio.
- Gofynnodd y panel pa broblemau/heriau y mae'r awdurdod yn eu wynebu wrth gynghori â phreswylwyr mewn ardaloedd lle mae cartrefi i blant yn cael eu hystyried. Clywyd yn unol ag arweiniad AGC bod asesiadau lleoliad a mangre'n digwydd cyn ymgysylltu â chymunedau. Rhoddwyd gwybod bod rhai o'r heriau gyda'r eiddo newydd wedi bod mewn perthynas â lleoliad yn unig. Mynegwyd pryderon gan y gymuned ynghylch diogelwch gyda Chartrefi 3 a 4.
- Teimlai'r panel fod y gwasanaeth yn trawsnewid ar hyn o bryd oherwydd y gofynion o ran lleihau elw. Nododd swyddogion yr hoffai'r gwasanaeth leihau'r defnydd o ddarparwyr allanol ond y bydd yn dibynnu arnynt o hyd. Maent yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol petai Llywodraeth Cymru'n rhoi diffiniad eglur o ystyr 'nid er elw'.
- Roedd y panel yn falch o glywed y cafwyd gwelliant sylweddol yn Nhŷ Nant. Yn ystod yr ymweliad diwethaf, tynnwyd pob hysbysiad o gamau gweithredu sy'n flaenoriaeth ac roedd unig faes i'w wella'n perthyn i asesiadau darparwyr, a oedd yn cael ei adolygu ar y pryd.

7 **Cynllun Waith 2023-24**

Ystyriodd y Panel y rhaglen waith a nodwyd yr eitemau ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.45 pm